BODLONRWYDD DEFNYDDWYR

Mae ein holiadur diweddaraf yn edrych ar y cyfnod rhwng gwneud diagnosis o ganser y fron a dechrau triniaeth.

Mae'n adeg o gryn bryder, felly mae ein nyrsys gofal y fron yn rhybuddio merched y gallwn ni anfon holiadur atyn nhw. Rydyn ni'n gofyn am y gofal a'r gefnogaeth a gawson nhw gan ein nyrsys. Holiadur newydd yw hwn felly aethon ni ati i'w dreialu'n gyntaf. Roedden ni am wneud yn siŵr ein bod ni'n gofyn y cwestiynau iawn a bod yr holiadur yn glir a dealladwy.

Anfonon ni 20 holiadur peilot ym mis Rhagfyr 2005. Daeth 14 yn ôl (70%).

- Dywedodd yr 14 atebwr fod nyrs gofal y fron gyda nhw pan gawson nhw wybod bod angen triniaeth arnyn nhw.
- Nododd 13 eu bod wedi gweld nyrs gofal y fron eto, yn eu cartrefi eu hunain. Gwelodd 11 y nyrs yn yr ysbyty hefyd.
- Cafodd bob un daflenni a llyfrynnau, a darllenodd bob un nhw.
- Cafodd 13 eu trin o fewn 4 wythnos.
- Dywedodd 2 bod y cyfnod aros yn rhy hir.
- Dywedodd yr 14 y cawson nhw ddigon o gefnogaeth gan eu nyrs gofal y fron.
- Ychwanegodd sawl un sylwadau caredig am nyrsys gofal y fron Bron Brawf Cymru ac am staff yr ysbytai.

Rydyn ni'n falch o weld bod y merched a atebodd ein holiadur yn credu ein bod ni wedi llwyddo i drefnu'r rhan yma o'n gwasanaeth yn iawn. Ond mae gofyn i ni fynd ymlaen i wirio rhag ofn bod modd gwella.

Ar sail y sylwadau a gawson ni, rydyn ni wedi symleiddio un o'r cwestiynau. Ym mis Mai 2006, byddwn ni'n dechrau anfon 200 holiadur arall allan i bob rhan o Gymru.